# Cysylltiadau gwledig-trefol

Bore da. Felly, tref neu gefn gwlad – pa un sydd well gyda chi?

Mae poblogaeth wasgarog iawn mewn ardaloedd gwledig, ond yn achos pentref fel Gobowen, mae fe o fewn cyrraedd i ddinas Caer, sef ardal drefol sy'n fwy, ac yn boblog.

Mae dwysedd uchel o boblogaeth mewn ardaloedd trefol fel arfer, a mwy o gyfleoedd gwaith, siopau ac adloniant. Mae tua 80% o bobl yn y Deyrnas Unedig yn byw mewn ardaloedd trefol.

Yn y gorffennol, roedd pobl yn gadael ardaloedd gwledig i fyw a gweithio yn y ddinas ond nawr, mae rhai pobl yn dewis byw mewn ardaloedd lled-wledig, ac ardaloedd gwledig hygyrch, ac yn cymudo i'r dinasoedd i weithio. Enw'r broses yma yw gwrthdrefoli. I rai, mae'n golygu awyr iach, mannau agored, a wynebau cyfeillgar.

Mae'r dewis yn seiliedig ar ddwy set o ffactorau - gwthio a thynnu.

Mae ardaloedd trefol fel Caer gyda gwell cysylltiadau cludiant, siopau a chyfleoedd gwaith - ond mae hefyd ffactorau gwthio fyddai'n gallu gwneud i rai pobl moyn gadael.

Ystyr ffactor gwthio yw rhywbeth sy'n gwneud i bobl ystyried gadael ardal. Os ydych chi'n byw mewn dinas, rhai o'r ffactorau gwthio yw costau byw uchel neu lygredd aer. A'r ffactorau tynnu yw'r pethau sy'n denu pobol i ardal arall, ac yn gwneud iddyn nhw ystyried gweithio neu fyw yno - ffactorau fel tai rhatach mewn rhai ardaloedd gwledig, neu gyfleusterau fel mannau gwyrdd neu ysgolion gwell.

Mae cylch dylanwad Caer yn eang, felly mae llif dyddiol o gymudwyr o drefi a phentrefi cyfagos yn dod yma i weithio. Mae'r siopau a'r adloniant yn denu pobl hefyd, sy'n gallu rhoi straen ar gysylltiadau cludiant. Mae hyn yn digwydd yn bennaf yn yr ardaloedd lled-wledig. Mae cymudo cyflym yn teimlo lot hirach os ydych chi'n sownd mewn traffig, neu ar drên gorlawn yn ystod oriau brys.

Ond mae'n stori wahanol mewn pentrefi anghysbell. Yn aml, mewn pentrefi gwledig anghysbell fel hyn, mae llai o fysiau a gwasanaethau fel siopau. Er bod technoleg Wi-Fi ar gael, mae cyflymder band eang yn aml yn arafach.


© Copyright BBC

Felly, i grynhoi, mae gwrthdrefoli'n golygu bod ardaloedd lled-wledig yn ymyl cylchoedd dylanwad yn aml yn tyfu, gyda stadau o dai newydd yn newid y dirwedd, tra bod pentrefi anghysbell fel hwn... O na. Mae'r we...


© Copyright BBC